# Pecyn Cyhoeddus

Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2023**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 26 Ionawr 2023. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 2 Chwefror 2023 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 3 Chwefror 2023.

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Gareth Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Elizabeth Evans, Gwyn Wigley Evans, Rhodri Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Gareth Lloyd, Ann Bowen Morgan a John Roberts.

(10.00am - 11.14am)

**132 Ymddiheuriadau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**133 Materion Personol**

Dim.

**134 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Datganodd y Cynghorydd Gareth Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 139.

**135 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2023 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

**136 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd**

Dim.

**137 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**

Dim.

**138 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda**

Dim.

**139 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw 2023/24 a'r rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn**

PENDERFYNIAD:

1. Nodi bod y codiad arfaethedig yn ardoll Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (eu hopsiwn o 13% i'r Gyllideb) yn golygu pwysau o £519,000 o ran y gost ar Gyllideb 23/24 y Cyngor, sy'n cyfateb â chynnydd o 1.3% yn Nhreth Gyngor preswylwyr Band D Ceredigion.
2. Cymeradwyo opswin a ffefrir ar gyfer Gofyniad Cyllideb 23/24 drafft o £180.101m, a fyddai'n cynrychioli cynnydd arfaethedig o 7.3% i Dreth Gyngor Band D at ddibenion y Cyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân).
3. Argymell y dylai'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer Gofyniad Cyllideb 23/24 a'r cynnydd canlyniadol i'r Dreth Gyngor at ddibenion y Cyngor Sir sef :
   a) Cynnydd o 6.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £179.627m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad is tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.
   b) Cynnydd o 7.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £180.101m ar gyfer 23/24.
   c) Cynnydd o 8.3% i'r Dreth Gyngor (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd arfaethedig yn Ardoll yr Awdurdod Tân) a gofyniad Cyllideb o £180.576m ar gyfer 23/24, a fyddai'n darparu cyfraniad uwch tuag at Bwysau Costau Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig.
   d) Cynnig opsiwn arall yn ychwanegol at Argymhellion 3a) i 3c) i ddarparu cynnydd penodol at ddiben penodol, ar yr amod bod unrhyw opsiwn yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfodydd Craffu'r Gyllideb a bod swyddog Adran 151 yn cael digon o amser ymlaen llaw i fodelu'r effaith yn llawn ac i roi barn ar ei gadernid.
4. Pan gyhoeddir setliad Terfynol 23/24, bod:
   a) Gwerth unrhyw grantiau penodol pellach a drosglwyddir i RSG yn cael eu trosglwyddo i gyllideb y Gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys Grant Pensiynau yr Awdurdod Tân o £143,000 i gyllideb yr Ardoll Tân.
   b) Dylai unrhyw newidiadau penodol eraill dargedu'r Gwasanaeth(au) sy'n cael eu heffeithio yn uniongyrchol, pan fo hynny'n briodol.
   c) Rhoddir sylw i unrhyw newid arall i'r AEF trwy wneud addasiad i gyllideb y Grŵp Arweiniol.
5. Nodi yr ystyrir adroddiad am y Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canolig wedi'i diweddaru fel eitem ar wahân yn y dyfodol ac y bydd yn adlewyrchu cynnydd dangosol yn Setliad 24/25 o 3.1% ar y mwyaf.
6. Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf Amlflwyddyn fel y nodir yn Atodiad 8 ac argymell hon i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo.
7. Cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf fel y nodir yn Atodiad 9 ac argymell hon i'r Cyngor Llawn i'w chymeradwyo.
8. Cyfeirio'r adroddiad Cabinet hwn er mwyn cael safbwyntiau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu y byddant yn cyfarfod ar 02/02/23, 09/02/23 a

10/02/23. Bydd y pwyllgorau hyn yn cael gwybodaeth am y cynigion ynghylch Taliadau a Ffioedd hefyd.

9. Nodi y caiff y penderfyniadau terfynol am Ofyniad Cyllideb 23/24 a lefel y cynnydd i'r Dreth Gyngor ar gyfer 23/24 eu gwneud gan y Cyngor Llawn ar 02/03/23.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn gallu paratoi Cyllideb 2023/24.

**140 Ystyried Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Ysgolion a Diwylliant ynghylch Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol**

PENDERFYNIAD:
Cadarnhau enwebu'r sawl a enwir yn yr adroddiad yn gynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar Gorff Llywodraethol yr ysgol berthnasol.

*Y rheswm dros y penderfyniad:*
Enwebu cynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol ar Gyrff Llywodraethol.

**141 Nodi Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Diogelu Grŵp Gweithredol Lleol ar y Cyd CYSUR/CWMPAS Chwarter 2 2022-23**

Nodwyd yr adroddiad.

**142 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol